Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding



# Beth yw cam-drin?

Cyfrifoldeb pawb yw diogelu
Arwyddion i edrych amdanyn nhw a chamau i'w cymryd



# Ar gyfer pwy mae’r daflen hon?

Mae’r daflen hon i bawb. Rydyn ni i gyd yn gyfrifol am gadw plant ac oedolion yn ein cymunedau yn ddiogel rhag cam-drin.

Mae’r daflen hon yn cyfeirio at oedolion, plant a phobl ifanc. Mae’r daflen hon i chi, p’un a ydych chi’n:

- **blentyn neu berson ifanc**
- **oedolyn**
- **oedolyn ag anghenion gofal a chymorth**
- **rhiant, gofalwr neu berthynas**
- **ymarferydd**
- **cyflogwr**
- **cyfaill neu gymydog**
- **aelod o’r cyhoedd sy’n pryderu**
- **unrhyw un sy’n cysylltu â’r cyhoedd**

**‘Cyfrifoldeb pawb yw diogelu’.**

# Beth yw cam-drin?

Gall pobl gael eu cam-drin a'u niweidio mewn nifer o ffyrdd.

Mae'r term 'cam-drin' yn cynnwys **cam-drin ariannol**, **cam-drin corfforol**, **cam-drin rhywiol**, **cam-drin emosiynol a seicolegol** ac **esgeulustod**.





# Cam-drinCorfforol

Lle mae rhywun yn anafu neu'n brifo rhywun arall yn gorfforol.

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- **taro/ysgwyd**
- **taflu/gwenwyno**
- **boddi/mygu**
- **llosgi/sgaldio**
- **slapio/dyrnu**
- **tagu/pinsio**

# Cam-drin Rhywiol

Lle mae person yn cael ei orfodi neu ei wthio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r person yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Mae hyn yn cynnwys y canlynol (ond heb ei gyfyngu i):

- **cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol**
- **gweithgareddau heb gyswllt gorfforol, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol neu fanteisio drwy'r rhyngrwyd**
- **cael ei orfodi i wylio deunydd pornograffig, neu gymryd rhan mewn cynhyrchu deunydd pornograffig**
- **annog y person i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbynio**

Stop It Now!
UK & IRELAND
Helping prevent child sexual abuse

**0808 1000 900**

**Sgwrs fyw a diogel e-bost ar gael gw www.stopitnow.org.uk/helpline am fanylion**

**Lle mae person yn cael ei orfodi neu ei wthio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol**



# Cam-drin Emosiynol/ Seicolegol

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn wael yn emosiynol yn barhaus fel bod hyn yn achosi effeithiau niweidiol difrifol a pharhaus ar ei iechyd meddwl a'i les, yn ogystal â'i ddatblygiad.

Cam-drin seicolegol yw gwadu hawliau dynol a sifil gan gynnwys dewis a barn, preifatrwydd ac urddas. Gall gynnwys rheoli drwy orfodaeth a/neu feithrin perthynas amhriodol.

Gallai cam-drin emosiynol fod yn ddigwyddiad unigol untro neu'n weithredoedd lluosog wedi'u hailadrodd dros amser, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y canlynol:

- **cam-drin geiriol a chodi cywilydd (galw enwau, bychanu)**
- **bygythiadau o niwed a/neu gael eu gadael**
- **ynysu'r person oddi wrth eraill**
- **gweld eraill yn cael eu cam-drin**

**Cam-drin emosiynol yw cam-drin emosiynol a/neu seicolegol parhaus plentyn neu oedolyn**

# Esgeuluso


Esgeulustod yw methiant parhaus rhiant neu roddwr gofal i gwrdd ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn, person ifanc neu oedolyn, mewn ffordd sy'n debygol o achosi nam difrifol i iechyd neu lles unigolyn ac, mewn achosion difrifol, hyd yn oed marwolaeth.

Yn achos plant, gall esgeulustod a chamdriniaeth effeithio ar eu datblygiad nhw.

Gall gweithwyr proffesiynol a sefydliadau hefyd fod yn esgeulus, os ydyn nhw'n methu â darparu lefel dda o ofal.

Gall esgeulustod gynnwys:

- **peidio â darparu bwyd, cysgod, dillad digonol**
- **atal/peidio â darparu mynediad at ofal neu driniaeth feddygol briodol**
- **methu ag amddiffyn y person rhag perygl**
- **diffyg goruchwyliaeth a chymorth**
- **anwybyddu anghenion emosiynol**
- **esgeuluso anghenion datblygu ac addysg (plant)**



**Methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/ neu seicolegol sylfaenol plentyn, pobl ifanc neu oedolion**



# Hunan- Esgeuluso

Gall oedolion sy'n hunan-esgeuluso hefyd fod mewn perygl o niwed. Yn hytrach na bod yn ddewis bywyd, i rai pobl gall eu gallu i ofalu am eu hunain a'u materion amrywio (llai o alluedd meddyliol). Gallan nhw gael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau, anhwylderau iechyd meddwl amrywiol, mathau o ddementia a mathau eraill o salwch. Gall ymddygiad hunan-esgeuluso person hefyd achosi risg i eraill, gan gynnwys lle nad ydy e'n gallu cadw at arferion diogel yn y cartref, a chynnal ei gartref i safon addas
(e.e. osgoi risg uwch o dân, pla ac ati).

**Efallai y bydd angen asesu gallu person i ofalu amdano'i hun (Asesiad Galluedd Meddyliol).**

**Efallai y bydd angen asesu gallu person i ofalu amdano'i hun (Asesiad Galluedd Meddyliol)**

# Cam-drin Ariannol

Cam-drin ariannol yw unrhyw ddwyn neu gamddefnyddio arian neu eiddo person.

Enghreifftiau nodweddiadol o gam-drin ariannol neu faterol (ddim yn gyflawn):

- **dwyn**
- **camddefnyddio arian, gan gynnwys budd-daliadau'r wladwriaeth, budd-daliadau anabledd, eiddo, meddiannu ac yswiriant**
- **ennill arian neu feddiant trwy fygythu, perswadio, neu fanteisio**
- **cael ei dwyllo neu ei roi dan bwysau o ran arian neu eiddo arall**

**Cyfrifoldeb pawb yw diogelu**



Mae'n cynnig cyngor a chymorth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

**Darparu gwybodaeth a chefnogoeth cyfrinachol ynghylch trais domestig trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.**

# Cam-drin Domestig

Cam-drin domestig yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodi, bygythiol, diraddiol neu dreisgar, gan gynnwys trais rhywiol. Yn y rhan fwyaf o achosion, partner neu gynbartner sy'n cyflawni hyn, ond gall aelod o'r teulu ei achosi hefyd. Mae cam-drin domestig yn aml yn parhau ar ôl i'r berthynas rhwng y goroeswr a'r troseddwr ddod i ben.

Mae cam-drin domestig yn effeithio ar bobl yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac yn digwydd mewn sawl ffordd gan gynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- **corfforol**
- **ariannol neu economaidd**
- **rhywiol**
- **emosiynol/seicolegol**
- **ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli**
- **digidol ac ar-lein**
- **aflonyddu a stelcio**

Mae plentyn yn ddioddefwr yn ei rinwedd ei hun os yw'n profi cam-drin domestig, ac mae hyn yn cynnwys pan fydd yn dyst, yn clywed neu'n ymwybodol o'r effaith ar yr unigolyn sy'n cael ei gam-drin.

# Sut mae cam-drin ac esgeuluso yn effeithio ar bobl?

Gall cam-drin ac esgeuluso gael effaith barhaol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, ei hapusrwydd a'i les, ei hyder, ei hunan-barch a'i wydnwch.

Ymhlith oedolion, gall hyn gynnwys unigolion yn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal a chymorth eraill sydd eu hangen arnyn nhw.

Ymhlith plant, gall iechyd corfforol a meddyliol, datblygu gwybyddol a chorfforol gael eu heffeithio, yn ogystal â'u gallu nhw i ffurfio ymlyniadau ac i deimlo'n ddiogel. Gall hyn, yn ei dro, effeithio ar ymatebion emosiynol a pherthnasoedd trwy gydol eu bywydau.

Gall plentyn neu oedolyn fod mewn perygl o niwed sylweddol neu farwolaeth o ganlyniad i'r cam-drin, esgeuluso (gan gynnwys hunan-esgeulustod), a chamdriniaeth y maen nhw'n eu profi.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n gweithredu, pan fydd gennym ni bryderon am blentyn neu oedolyn sydd, yn ein barn ni, mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, gan y gall ein cymorth ni wneud gwahaniaeth.

**Felly ... gwnewch rywbeth a dweud wrth rywun.**





# Rwy’n poeni am rywun – beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych chi’n poeni y gallai rhywun fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso ac felly mewn perygl o niwed, ffoniwch rif yr Awdurdod Lleol priodol ar y dudalen gefn a siarad â nhw am eich pryderon chi. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol siarad ag un o’r bobl ganlynol:

- **Rheolwr Cartref Gofal**
- **Ymwelydd iechyd**
- **Meddyg**
- **Gweithiwr Cymdeithasol**
- **Nyrs**
- **Heddlu**
- **Gweithiwr Cymorth**

**Siaradwch ag eraill am eich pryderon**

Mae gan wefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gyfeiriadur cymorth gyda manylion sefydliadau lleol a chenedlaethol y gallwch chi gysylltu â nhw i gael cymorth os oes angen cymorth arnoch chi neu oedolyn arall. Cyfeiriadur Cymorth - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; https://comisiynyddph.cymru/cyfeiriadur-cymorth/support-directory/

# Rwy'n blentyn neu'n berson ifanc – Beth alla i ei wneud? Gyda phwy alla i siarad?

Os ydych chi'n blentyn neu'n berson ifanc sydd:

- **yn anhapus am fywyd neu**
- **yn poeni am ffrind neu rywun arall yn yr ysgol; dylech chi ddweud wrth rywun rydych chi'n ymddiried ynddo**

Gallwch chi ddweud wrth y canlynol:


- **ffrind**
- **rhywun yn eich teulu**
- **eich athro neu nyrs ysgol**

Os nad ydych chi am siarad ag unrhyw un o'r rhain, gallech chi ffonio **Childline** yn gyfrinachol ar **0800 1111**.

Mae gan **Childline** hefyd wefan gyda gwybodaeth ddefnyddiol i blant a phobl ifanc – **www.childline.org.uk**



**Gallech ddweud wrth ffrind, rhywun yn eich teulu, eich athro neu nyrs ysgol**



# Poeni am blentyn mewn perygl?

Os ydych chi'n poeni bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, rhaid i chi adrodd eich pryderon cyn gynted â phosibl. Gweler isod fanylion cyswllt eich Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lleol:

| | |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | **01495 315700** |
| **Caerffili** | **0808 100 1727** |
| **Sir Fynwy** | **01291 635 669** |
| **Casnewydd** | **01633 656656** |
| **Torfaen** | **01495 762200** |

Ar ôl 5pm ac ar y penwythnos a gwyliau banc, ffoniwch **Dîm Dyletswydd Argyfwng y De-ddwyrain** ar **0800 328 4432**.

Os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â'r Heddlu ar 999 a dweud wrthyn nhw beth sy'n digwydd.

Os ydych yn blentyn/person ifanc eich hun, efallai yr hoffech siarad â **Childline** yn gyfrinachol ar **0800 1111**.

**www.childline.org.uk**

**Adrodd eich pryderon**

# Poeni am oedolyn mewn perygl?

Os ydych chi'n poeni bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, cysylltwch â'r Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth lleol am gyngor cyn gynted â phosibl:

| | |
|---|---|
| **Blaenau Gwent** | **01495 315700** |
| **Caerffili** | **0808 100 2500** |
| **Sir Fynwy** | **01873 735492** |
| **Casnewydd** | **01633 656656** |
| **Torfaen** | **01495 762200** |

Os yw'n argyfwng a bod angen i chi gysylltu â ni y tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch ein **Tîm Dyletswydd Argyfwng** ar **0800 328 4432**.

Os ydych chi'n meddwl bod oedolyn mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â'r Heddlu ar 999 a dweud wrthyn nhw beth sy'n digwydd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y gallwch chi ei wneud i amddiffyn pobl, ewch i wefan **Diogelu Gwent www.gwentsafeguarding.org.uk**

I weld canllawiau diogelu ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion a phlant yng Nghymru, ewch i Weithdrefnau Diogelu Cymru: **www.safeguarding.wales**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

www.safeguarding.wales